Tud 1

Cofnodion drafft o Gyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos iau Gorffennaf 3ydd am 7.30

Yn Bresennol

Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, , Robin Ward, Annwen Hughes, , Kevin Titley

Yn Absennol

John Evans, Nia Jones, Luise Vassey. Helen Johns. Dim Cyfieuthu ar y pryd.

Datgan Buddiant – AH parthed ceisiadau cynllunio.

Ceisiadau Cynllunio – cais Pods tir ger Capel Salem wedi ei wrthod – fyddai hyn yn creu maes campio o'r Newydd.Mae'r Parc Cenedlaethol wedi nodi cynnwys ein e-bost ac mae'r cais bellach wedi ei wrthod am y rhesymau isod.

1. *Oherwydd bod y cais hwn yn cynnig unedau llety newydd yng nghefn gwlad agored, nid yw'r cynnig yn bodloni gofynion Polisi Datblygu 22*.

*2. Nid yw'r cynnig yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol nac yn ategol i atyniad twristaidd newydd neu bresennol ac o ganlyniad mae'n groes i Bolisi Datblygu 29 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) a fabwysiadwyd a'r Canllawiau Cynllunio Atodol 8 – Llety i Ymwelwyr.*

3.*Drwy gyflwyno datblygiad newydd ar raddfa fawr yng nghefn gwlad agored, ystyrir ei fod yn ffurf amhriodol o ddatblygiad sy'n methu â gwella na gwarchod 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol a bydd yn cael effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd ehangach. Felly mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol a Pholisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd.*

Mae rhesymau clir o ran polisïau sydd wedi ei mabwysiadu dros wrthod y cais ac mae rhaid i'r Awdurdod fod yn gyson a theg wrth eu penderfyniadau ar y fath geisiadau.

Mae yn mynd ymlaen I ddweud fel a ganlyn ------

Rwyf yn nodi eich pryderon ynglyn am ail ddefnyddio'r safle ar gyfer *stoc sydd wedi disgyn*. Mae'r penderfyniad apêl yn manylu amodau fydd rhaid i'r datblygwr gydymffurfio a hwy cyn dechrau'r datblygiad. Mae'r amodau yn

ymwneud a dreinio dŵr budr, astudiaeth ddesg yn cael ei chynnal i asesu'r risgiau halogiad posibl, gan gynnwys y risgiau i ansawdd dŵr a manylion gorffeniad yr adeiladau.

*3) Cyn i'r datblygiad ddechrau, bydd manylion llawn draenio dŵr budr ac wyneb yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy..*

*4) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes bod astudiaeth ddesg yn cael ei chynnal i asesu'r risgiau halogiad posibl, gan gynnwys y risgiau i ansawdd dŵr. Sicrheir bod canlyniadau'r astudiaeth ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau. Os bydd yr astudiaeth ddesg yn argymell bod angen ymchwiliadau pellach ynglŷn â halogiad, mae'n rhaid i ymchwiliad ymwthiol a strategaeth adfer gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol trwy gais ffurfiol a'u cymeradwyo ganddo. Mae'n rhaid i'r strategaeth gymeradwy gael ei gweithredu yn unol â'r manylion argymelledig..*

*5) Ni cheir storio sgipiau casglu na deunydd gwastraff yn allanol.*

*8) Cyn i'r adeilad a gymeradwyir drwy hyn gael ei adeiladu, bydd manylion y lliw a'r gorffeniadau sydd i'w defnyddio wrth adeiladu arwynebau allanol yr adeilad yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.*

Derbyn Cofnodion y Cyfarfod diwethaf fel rhai cywir –

Adroddiad Cyllid

£90 ad daliad

| | |
|---|---|
| 20.00 | camgymeriad |
| £190 | torri fynwent |
| £45.00 | Delyth Williams |
| £20.00 | Rhent Neuadd |
| £20.00 | Rhent Neuadd |
| £95.00 | R.A.Hughes |
| £325.00 | Dyffryn Iron Design |
| £90 | Parish online |
| £5.00 | Banc |

Nododd y Clerc bod yna gyfrif sylweddol yn y banc diwedd Mehefin o £29568.95

Mae hyn oherwydd bod methiant ar lein I alluogi anfon taliadau allan oherwydd diffyg yn y mandate a hefyd camgymeriad gyda methu yr elfen diogelwch ar lein. Ceisio datrys hwn.

Yn gwneud paratoadau I anfon dogfennau drwy'r post at Archwilydd Allannol

Hefyd bod y costau banc o £5 y mis yn cael ei ddiddymu o Mis Awst ymlaen. Hyn yn Newydd da.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**

1.Y Fynwent – bod y fainc er cof wedi cael ei thrwshio gan y Teulu. Yn ddiolchgar o hyn.

2. Llwybrau Cyhoeddus – bod llwybr 62 wedi ei dorri.

Llwybr 7 hefyd wedi ei dorri . Dyma y 2 lwybr sydd wedi cael blaenoriaeth eleni. Dim mwy o gyllid ar gael. Mae'r 2 lwybr yma yn gylchdaith dda, ac yn hanfodol i'r Gymuned. Llwybr nawr yn glir at Graig Fawr.

Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd a fydda modd rhoi giat fochyn ar y clawdd sydd yn arwain o lwybr 7 I lwybr 6 Penrallt. Y gamdda gerrig ar y

clawdd yn anodd.  Hefyd bod angen gwelliant i'r gamdda bren ar y llwybr hwn hefyd.  Angen arwyddion hefyd ble mae llwybr 7 yn cyfarfod gyda llwybr 8.

Bod y Clerc hefyd wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd parthed canllaw pont Glyn Artro sydd wedi malu.

3.Polisi – bioamrywiaeth – Bod KT yn edrych ar hwn, I sicrhau bod y manylion yn gywir.  Gadael I'r Clerc wybod yn fuan er mwyn ychwanegu hyn at y Cyfrifon I'r Archwiliwr Allanol.

Fforwm Ardudwy cynhaliwyd y fforwm 27 o Fehefin gyda Mabon ap Gwynfor yn bresennol.Cyfarfod buddiol iawn a nifer o bynciau yn codi gan y grwp.

Megis CCTV, 20 mya, ffordd liniaru Llanbedr, grantiau posib. A rheolau Amod 4,

1. 20 mya – dim ond 2 ardal drwy Gwynedd ble bydd adolygiad posib o hyn.  Sef Bontddu a Llanbedrog.
2. Sefyllfa CCTV camerau ar gyfer Llanbedr –

Wedi derbyn amcanbris am 2 gamerau I'r Pentref.

Lleoliad – ger y kiosg a  Canolfan Artro

Pris o £7000

Angen cadarnhad o safle ar gyfer y recordydd.  Wedi meddwl am ystafell uwchben y salon gwallt.  Wedi holi Robinson o hyn.  Heb gael ymateb.

Angen holi Alys Gwynedd Ni a oes siawns I gael y grant yma? Y Clerc I wneud hyn.  Osy w hyn yn iawn – cael pwyllgor I lenwi y ffurflen gais 14 o Orffennaf am 5.30

**Ffordd liniaru Llanbedr**

Bu cryn drafod ar hyn yn y Fforwm hefyd.

Nododd JTW bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda POBL a Mabon a Gwynfor Owen a Nia Jeffries parthed y ffordd a diffyg cyllid.  Nododd bod y Llywodraeth yn awyddus I POBL fod yn rhan allweddol o'r trafodaethau.  Bod Pobl yn dda, yn ddemocrataidd ac yn llwyddo I gael protestiadau tawel

di drais, ond yn codi proffeil. Eto angen cydweithio a hefyd bod JTW I wisgo 2 het sef aelod o POBL a hefyd Cadeirydd y Cyngor Cymuned, pan fydd rhywrai yn holi..

Yn ol at ddiffyg cyllid!. Nododd Mabon bydd yn rhaid I Gyngor Gwynedd wneud cais am arian I'r Llywodraeth o pot CJC (sef Community Justice Centre) Cais cryf am wella safle economaidd yr ardal a ymdrechion digarbonneiddio I'w nodweddion pwysiicaf y grant yma.

Bod 100 miliwn wedi cael ei nodi ar gyfer 6 Cyngor o fewn y Gogledd –

Gwynedd, Wrecsam, Dynbych, Ynys Mon, FFlint a Conwy Mae I fyny I'r 6 Arweinydd yma I benu pwy sydd yn cael be.

E bost wedi cyrraedd gan y Llywodraeth – trefnu cyfarfod 15 0 Fedi.

Angen gwybod pwy sydd yn awyddus i fynychu. Safle ddim wedi ei benderfyny. Angen trio cael hwy i ddod I Lanbedr.

Unrhyw Faterion Eraill

1. Nododd JTW bod hi a'I gwr wedi bod yn clirio ochr ffordd Cypla – torri gwellt, codi cerrig yn ol i'r waliau. Nodi bod y ffordd yn llawn budreddi, a phan ddaw yn wlaw, bydd y draeniau yn llenwi ac yn tagu gyda llifogydd, hyn wedyn yn arwain i lawr i'r pentref a gwneud ychwaneg o lanastr. Nododd y Clerc ei bod wedi anfon at Cyngor Gwynedd, ac maent yn mynd i anfon rhywun i adolygu'r sefyllfa.
2. Coeden dderw ger Ty Gwyn. RW yn adrodd ar hyn, a bod angen torri cangen ohoni. Anfon at CG.
3. Tyfiant o'r clawdd ochr yr Afon – Ffordd Mochras – KT yn adrodd am hyn. Clerc I anfon at CG.
4. JTW yn holi a oes arian yn y gyllideb ar gyfer Huchenfeld. Trip yn mis Medi eleni. £100 ar gael yn y gyllideb. Angen meddwl am anrheg i fynd I'r Almaen ar gyfer y Maeres. Awgrym o waith llechi, hefyd efallai bydda modd cael llun o Lanbedr un ai llun camera gan Mari Lloyd neu llun sketch .

Tud 6.

5. Pris ar gyfer y panel llwybrau ar gyfer Talwrn Bach. Clerc I holi am hyn.

Nododd RW byddai'r Gwyl Gwrw yn gallu gwneud cais am grant ariannol i TFW.

6. Bod tyfiant gyferbyn a Bron Meini – yn y ffos. RW yn adrodd am hyn. Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
7. Camerau Stadudol ar gyfer y Pentref i gadw golwg ar y cyflymder traffic. Nododd RW bod yr Heddlu yn cymeradwuo hyn. Nododd JTW nad yw hyn yn cael ei ganiatau yn ardaloedd Parc Cenedlaethol. Clerc I holi a yw hyn yn bosib Gan bod Heddlu Gogledd Cymru yn ei gymeradwyuo.

Adroddiad gan Cynghorydd Annwen Hughes

- Llongyfarch Mari Lloyd a r ei hymddangosiad ar y rhaglen Ffermio yn ddiweddar. Merch fferm wedi arallgyfeirio i greu busnes o'r fferm deuluol gyda ei ffotograffiaeth.
- Ffridd Rasus – si bod y lle yn cau. Hyn ddim yn wir, adolygu oriau agor.
- Tim Tacluso Gwynedd wedi bod yn chwynu 'r palmant yn Llanbedr.
- Bod y modur dal ar y ffordd yn Pentre Gwynfryn ac yn rhwystr I gerbydau mawr rhag pasio.
- Bod ochrau'r ffyrdd wedi cael eu gwneud bellach. Boddhaol iawn gan gofio mae dim ond ychydig maent yn cael ei dorri mwyach.
- Potiau blodau ger Capel Moreia angen eu dyfrhau.
- Bod y fainc ger Capel Moreia hefyd angen paent.

Cyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Medi 4ydd.